OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 1762 (Cy. 177)

# CARTREFI SYMUDOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2014

### NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau*)

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") yn gymwys i bob cytundeb y mae gan bobl hawl odano i osod cartref symudol ar safle gwarchodedig a'i feddiannu fel eu hunig neu eu prif breswylfa. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2013 yn darparu bod yn rhaid i berchennog y safle, cyn ymrwymo i gytundeb o'r fath, roi datganiad ysgrifenedig i ddarpar feddiannydd y cartref symudol. Rhaid i'r datganiad hwn gynnwys y materion a bennir yn adran 49(1)(a) i (d) o Ran 4 o Ddeddf 2013 a chydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu bod yn rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gynnwys gwybodaeth benodol, yn ychwanegol at yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 49(1)(a) i (d) o Ran 4 o Ddeddf 2013, a bod rhaid iddo fod yn y ffurf a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 1 o'r Atodlen yn cynnwys gwybodaeth am hawliau'r meddiannydd o dan y cytundeb.

Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn nodi prif ddarpariaethau'r cytundeb, sef enw a chyfeiriad y partïon, manylion y tir, ffi'r llain ac adolygu ffi'r llain, a thaliadau ychwanegol.

Mae Rhan 3 o'r Atodlen yn cynnwys unrhyw delerau datganedig eraill sydd yn y cytundeb.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2012.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, barnwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r buddion sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 1762 (Cy. 177)

# CARTREFI SYMUDOL, CYMRU

## Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) Cymru) 2014

*Gwnaed* *2 Gorffennaf 2014*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *4 Gorffennaf 2014*

*Yn dod i rym* *1 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pŵer o dan adran 49(1)(e) o Ran 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 1 Hydref 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a roddir ar neu ar ôl 1 Hydref 2014 mewn perthynas â chytundeb—

(a) ynglŷn â gosod cartref symudol(**2**) ar safle gwarchodedig(**3**) yng Nghymru, a

(b) y bydd Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys iddo.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "datganiad ysgrifenedig" ("*written statement*") yw'r datganiad ysgrifenedig y mae'n ofynnol o dan adran 49(1) o Ddeddf 2013 i berchennog safle gwarchodedig ei roi i'r darpar feddiannydd; ac

(**1**) 2013 dccc 6.
(**2**) I gael y diffiniad o "cartref symudol", *gweler* adran 60 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.
(**3**) I gael y diffiniad o "safle gwarchodedig", *gweler* adran 2(2) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

ystyr "Deddf 2013" ("*the 2013 Act*") yw Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

**Datganiad ysgrifenedig: gofynion rhagnodedig**

**3.** Y gofynion y mae'n rhaid i ddatganiad ysgrifenedig gydymffurfio â hwy at ddibenion adran 49(1) o Ddeddf 2013 (yn ychwanegol at ofynion adran 49(1)(a) i (d) o Ddeddf 2013) yw-

(a) bod yn rhaid iddo gynnwys—

(i) y nodyn sy'n rhagflaenu Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, a

(ii) yr wybodaeth a grybwyllir yn Rhannau 1 i 3 o'r Atodlen honno (i'r graddau nad yw eisoes yn ofynnol o dan adran 49(1)(a) i (d) o Ddeddf 2013), a

(b) bod yn rhaid iddo fod yn y ffurf a nodir yn yr Atodlen honno neu mewn ffurf sylweddol debyg ei heffaith.

**Dirymu**

**4.** Mae Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2012(**1**) wedi eu dirymu.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

2 Gorffennaf 2014

(**1**) O.S. 2012/2675 (Cy. 289).

# ATODLEN

Rheoliad 3

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG O DAN DDEDDF CARTREFI SYMUDOL (CYMRU) 2013 Y MAE'N OFYNNOL EI ROI I DDARPAR FEDDIANNYDD LLAIN

**PWYSIG - DARLLENWCH Y DATGANIAD HWN YN OFALUS A'I GADW MEWN MAN DIOGEL. MAE'N NODI'R TELERAU Y BYDD GENNYCH HAWL I GADW'CH CARTREF SYMUDOL AR SAFLE GWARCHODEDIG ARNYNT AC YN DWEUD WRTHYCH AM YR HAWLIAU A RODDIR I CHI GAN Y GYFRAITH. OS NAD YDYCH YN DEALL UNRHYW BETH DYLECH GAEL CYNGOR (ER ENGHRAIFFT, GAN GYFREITHIWR NEU GANOLFAN CYNGOR AR BOPETH).**

## RHAN 1

### Gwybodaeth am eich Hawliau

**Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013**

**1.** Byddwch yn ymrwymo i gytundeb gyda pherchennog safle a fydd yn rhoi hawl ichi gadw'ch cartref symudol ar dir perchennog y safle a byw ynddo fel eich cartref. Byddwch wedi eich amddiffyn yn awtomatig, a byddwch yn cael rhai hawliau penodol o dan Ran 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Mae'r hawliau hyn yn effeithio'n benodol ar ddiogelwch eich deiliadaeth, gwerthu'ch cartref ac adolygu ffi'r llain.

**Telerau Ymhlyg**

**2.**Mae Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yn cynnwys telerau ymhlyg (mae Pennod 2 yn gymwys i gytundebau sy'n ymwneud â phob llain ar safle gwarchodedig ac eithrio'r rhai ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr; mae Pennod 3 yn gymwys i gytundebau sy'n ymwneud â lleiniau dros dro ar safleoedd awdurdodau lleol ar

gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac mae Pennod 4 yn gymwys i gytundebau sy'n ymwneud â lleiniau parhaol ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr) a fydd yn gymwys yn awtomatig i'ch cytundeb chi ac na ellir eu gwrthwneud, cyhyd â bod eich cytundeb yn parhau yn un y mae Rhan 4 o Ddeddf 2013 yn gymwys iddo. Mae'r telerau a fydd yn gymwys i chi wedi eu cynnwys yn yr Atodiad i Ran 2 o'r datganiad hwn.

**Telerau Datganedig**

**3.** Bydd y telerau datganedig a nodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn yn gymwys i chi. Os nad ydych yn fodlon ar unrhyw un neu ragor o'r telerau datganedig hyn, dylech eu trafod gyda pherchennog y safle, a allai gytuno i'w newid.

*(Nid yw'r paragraff a ganlyn yn gymwys i gytundeb ynglŷn â llain dros dro neu lain barhaol ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.)*

**4.** Mae'r rheolau safle ar gyfer eich safle chi, fel y'u hadneuwyd gyda'ch awdurdod lleol, hefyd yn ffurfio rhan o delerau datganedig eich cytundeb, a nodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn. Dim ond yn unol â'r weithdrefn ragnodedig, fel y'i nodwyd yn adran 52 o Ddeddf 2013, y caniateir i reolau safle gael eu gwneud, eu hamrywio neu eu dileu.

**Telerau Ychwanegol**

*(Nid yw'r paragraff a ganlyn yn gymwys i gytundeb sy'n ymwneud â llain dros dro ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.)*

**5.** Mae telerau ychwanegol wedi eu nodi yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013, a gellwch ofyn i dribiwnlys eiddo preswyl gael ei gynnwys yn eich cytundeb. Mae'r rhain yn ymdrin â'r materion a ganlyn:

(a) y symiau sy'n daladwy gan y meddiannydd yn unol â'r cytundeb, a'r adegau pryd y maent i'w talu;

(b) yr adolygiad cyfnodol blynyddol o'r symiau taladwy hyn;

(c) darparu neu wella'r gwasanaethau sydd ar gael ar y safle gwarchodedig, a defnydd y meddiannydd ar wasanaethau o'r fath; a

(d) cadw amwynder y safle gwarchodedig.

**Yr hawl i herio telerau datganedig**

*(Nid yw'r paragraffau a ganlyn yn gymwys i gytundeb sy'n ymwneud â llain dros dro ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.) Nid ydynt yn gymwys*

*ychwaith i reolau safle sy'n ffurfio rhan o delerau datganedig eich cytundeb.*

**6.** Os byddwch yn ymrwymo i'r cytundeb, ac wedyn yn teimlo'n anfodlon ar delerau datganedig y cytundeb, gellwch eu herio, ond rhaid ichi wneud hynny o fewn chwe mis i'r dyddiad pryd y byddwch yn ymrwymo i'r cytundeb neu'r dyddiad pryd y cawsoch y datganiad ysgrifenedig, p'un bynnag yw'r olaf. Os ydych yn dymuno herio'ch cytundeb, cynghorir chi i siarad â chyfreithiwr neu ganolfan cyngor ar bopeth.

**7.** Gellwch herio'r telerau datganedig drwy wneud cais i dribiwnlys eiddo preswyl. Gellwch ofyn i unrhyw delerau datganedig yn y cytundeb (y rhai a nodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn) gael eu newid neu eu dileu.

**8.** Gall perchennog y safle hefyd fynd i dribiwnlys eiddo preswyl i ofyn i'r cytundeb gael ei newid yn y ddwy ffordd hyn.

**9.** Rhaid i'r tribiwnlys eiddo preswyl wneud gorchymyn ar delerau y mae'n ystyried eu bod yn gyfiawn a theg yn yr amgylchiadau.

**Terfyn amser o chwe mis ar gyfer herio'r telerau**

*(Nid yw'r paragraff a ganlyn yn gymwys i gytundeb sy'n ymwneud â llain dros dro ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.) Nid yw'n gymwys ychwaith i reolau safle sy'n ffurfio rhan o delerau datganedig eich cytundeb.*

**10.** Rhaid ichi weithredu'n gyflym os oes arnoch eisiau herio'r telerau. Os na fyddwch chi neu berchennog y safle yn gwneud cais i dribiwnlys o fewn chwe mis i'r dyddiad pryd y gwnaethoch chi ymrwymo i'r cytundeb neu'r dyddiad pryd y cawsoch y datganiad ysgrifenedig, p'un bynnag yw'r olaf, byddwch chi a pherchennog y safle wedi eich rhwymo gan delerau'r cytundeb ac ni fydd modd ichi eu newid oni bai bod y ddau barti yn cytuno.

**Telerau annheg**

**11.** Os ydych yn ystyried bod unrhyw un neu ragor o delerau datganedig y cytundeb (fel y'u nodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn) yn annheg, gellwch, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999(**1**) wneud cwyn i'r Awdurdod Cystadlu a Marchnadoedd neu unrhyw gorff cymwys dan y Rheoliadau hynny.

(**1**) O.S. 1999/2083. Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn cynnwys rhestr o gyrff cymwys.

**Anghydfodau**

**12.** Os byddwch yn anghytuno â pherchennog eich safle ynglŷn â hawliau neu rwymedigaethau o dan eich cytundeb, neu o dan Ran 4 o Ddeddf 2013 yn fwy cyffredinol, a'ch bod yn methu datrys y mater rhwng eich gilydd, gellwch gyfeirio'r mater at Dribiwnlys Eiddo Preswyl. Weithiau ceir terfyn amser ar gyfer gwneud hynny. Gellir cael rhagor o wybodaeth am geisiadau i'r tribiwnlys yn http://rpt.cymru.gov.uk neu gan eich Swyddfa Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl leol.

**13.** Dim ond ar y seiliau a bennir yn y telerau ymhlyg y gall perchennog eich safle derfynu'ch cytundeb. Ni ellir eich troi allan o'r safle heb orchymyn gan y llys. Os cewch wybod bod y cytundeb yn mynd i gael ei derfynu drwy achos llys, a'ch bod yn dymuno cael cyngor cyfreithiol, dylech wneud hynny ar unwaith.

**Cymrodeddu**

**14.** Gellwch gytuno'n ysgrifenedig â pherchennog eich safle i gyfeirio anghydfod penodol at broses gymrodeddu.

**15.** Os cytunwyd i fynd at broses gymrodeddu cyn i'r anghydfod godi, mae Rhan 4 o Ddeddf 2013 yn darparu na fydd grym i deler o'r fath. Yn hytrach, dim ond Tribiwnlys Eiddo Preswyl a gaiff benderfynu ar anghydfodau o'r fath.

# RHAN 2

## Manylion y Cytundeb

**1.** Bydd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys i'r cytundeb.

**Partïon i'r cytundeb**

**2.** Y partïon i'r cytundeb fydd:

…………………………………………….

…………………………………………….

*(mewnosoder enw(au) a chyfeiriad meddiannydd y cartref symudol)*

……………………………………………..

*(mewnosoder enw(au) a chyfeiriad perchennog/perchnogion y safle)*

**Dyddiad cychwyn**

**3.** Bydd y cytundeb yn cychwyn ar

………………………………………………

*(mewnosoder y dyddiad)*

**Manylion y llain**

**4.** Dyma fanylion y tir y bydd gennych hawl i osod eich cartref symudol arno:

………………………………………………………

………………………………………………………

………………………………………………………

**Plan**

**5.** Mae plan sy'n dangos—

(a) maint a lleoliad y llain;

(b) maint y sylfaen y mae'r cartref symudol i'w osod arno; ac

(c) mesuriadau rhwng pwyntiau gosodedig y mae modd eu gweld ar y safle a'r llain a'r sylfaen,

ynghlwm wrth y datganiad hwn.

**Buddiant perchennog y safle**

**6.** Bydd ystâd neu fuddiant perchennog y safle yn y tir yn dod i ben ar:

………………………………………..
(os yw'r *datganiad* hwn yn gymwys mewnosoder y dyddiad);

Neu

Bydd caniatâd cynllunio perchennog y safle ar gyfer y safle yn dod i ben ar:

…………………………………………..
(os yw'r *datganiad* hwn yn gymwys mewnosoder y dyddiad)

Mae hyn yn golygu na fydd eich hawl i aros ar y safle yn parhau ar ôl y naill neu'r llall o'r dyddiadau hyn,

oni bai bod buddiant neu ganiatâd cynllunio perchennog y safle yn cael ei ymestyn.

*(Os dim ond un o'r datganiadau hyn sy'n gymwys, dileer y geiriau nad ydynt yn gymwys. Os nad oes yr un o'r datganiadau hyn yn gymwys, dileer y paragraff hwn.)*

**Ffi'r llain**

**7.** Bydd ffi'r llain yn daladwy o:

…………………………… *(mewnosoder y dyddiad)*

Bydd ffi'r llain yn daladwy bob wythnos/mis/chwarter/blwyddyn

*(dileer y geiriau nad ydynt yn gymwys)*

Ffi'r llain yw …………………………..

Mae'r gwasanaethau a ganlyn wedi eu cynnwys yn ffi'r llain –

Dŵr

Carthffosiaeth

……………………………….

……………………………….

*(dileer y gwasanaethau nad ydynt wedi eu cynnwys yn ffi'r llain ac ychwanegwch unrhyw wasanaethau eraill sydd wedi eu cynnwys ynddi)*

**Adolygu ffi'r llain**

**8.** Bydd ffi'r llain yn cael ei hadolygu ar:

…………………………… *(mewnosoder y dyddiad)*

Dyma ddyddiad yr adolygiad.

*(dileer y paragraff hwn os nad yw'n gymwys)*

**Taliadau ychwanegol**

**9.** Codir tâl ychwanegol am y materion a ganlyn—

………………………………………………………

*(rhestrwch y materion y codir tâl ychwanegol amdanynt)*

## Yr Atodiad i Ran 2

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r telerau ymhlyg a fydd yn gymwys i'r cytundeb yn awtomatig.

*[Perchennog y safle i gynnwys yn yr Atodiad hwn y set gywir o delerau ymhlyg:*

*mae'r telerau ymhlyg ym* Mhennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 *yn gymwys o ran pob llain ar safleoedd gwarchodedig ac eithrio'r rhai ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr;*

*mae'r telerau ymhlyg ym* Mhennod 3 *o'r Atodlen honno yn gymwys i leiniau dros dro ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr;*

*ac mae'r telerau ymhlyg ym* Mhennod 4 *o'r Atodlen honno yn gymwys i leiniau parhaol ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.]*

# RHAN 3

## Telerau Datganedig y Cytundeb

Mae'r Rhan hon o'r datganiad ysgrifenedig yn nodi telerau eraill yn y cytundeb y gallech chi a pherchennog y safle gytuno arnynt yn ychwanegol at y telerau ymhlyg.

*[Y telerau i'w mewnosod gan berchennog y safle]*